
PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 5/3/14

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau'r Harbwr), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), a Robert Owen (Buddiannau Masnachol).

HEFYD YN BRESENNOL: Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), David O'Neill (Harbwr Feistr) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2013, fel rhai cywir.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriodd aelod at yr awgrym a wnaed gan aelod parthed newidiadau yng nghynrychiolaeth y Cyngor Tref ar y Pwyllgor. Nododd yn unol â barn gyfreithiol a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Porthmadog ar y mater, y byddai angen diwygio'r Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998 i newid yr aelodaeth cyfetholedig.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig pan dderbynnir ymateb ffurfiol gan y Cyngor Tref yn cynnwys y farn gyfreithiol a derbyniwyd ganddynt, y byddai'r Cyngor yn ymateb yn briodol. Pwysleiswyd y dylai'r Cyngor Tref anfon unrhyw sylw ymlaen at y Cyngor heb oedi.

4. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

a) Cylch Gorchwyl

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod newid yn y materion bydd y Pwyllgor yn trafod, gyda materion uniongyrchol sydd yn ymwneud â'r harbwr megis mordwyo, diogelwch a'r gyllideb yn cael eu hystyried.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cynnal trafodaeth yng nghyswllt asedau eraill o amgylch yr arfordir, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n hapus i fynychu cyfarfodydd sydd yn ymwneud ac asedau eraill, ac os oes materion i'w codi fe all y Cadeirydd roi caniatâd yw trafod. Ychwanegodd oherwydd bod yr Harbwr Feistr efo cyfrifoldeb dros draethau yn ogystal, ei fod yn anodd gwahaniaethu, ond o ran egwyddor materion mordwyo, diogelwch a'r gyllideb a fyddai'n derbyn ystyriaeth gan y Pwyllgor.

b) Cod Diogelwch Harbyrau

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gan nad oedd sylwadau wedi ei dderbyn ar y ddogfen, y byddai copi o'r Cod Diogelwch Harbyrau terfynol yn cael ei rannu

efo'r mudiadau. Hysbysodd yr aelodau y byddai eitem flynyddol sefydlog ar raglen y Pwyllgor i ystyried y cod.

Nododd bod safle we ar gyfer y gwasanaeth bellach yn fyw ar y rhyngwrwd a byddai'r cod yn cael ei osod yno.

c) Mordwyo ac Angorfeydd

Adroddwyd er gwaethaf y tywydd garw nad oedd llawer o ddifrod yn Harbwr Porthmadog heblaw bod bwi rhifau 11 a 12 wedi symud allan o'u safle. Nododd ei fod yn ddiolchgar i'r staff am eu hymroddiad yn ystod y cyfnod o dywydd garw a'u hyblygrwydd o ran oriau gwaith.

Adroddwyd bod y twyni mewn cyflwr iach ar draeth Morfa Bychan gan eu bod wedi eu gwarchod gan y pyst a osodwyd ar y traeth. Roedd pont cerdded yn yr ardal yma wedi symud ond y gobeithir ei ail osod cyn gwyliau'r Pasg.

Nodwyd y bwriedir gorfodi lansio cychod o'r safle lansio sydd wedi ei leoli ger brif fynedfa traeth Morfa Bychan yn hytrach na Chwt Powdwr er sicrhau diogelwch yr holl ddefnyddwyr.

Nodwyd y byddai'r gwaith o archwilio angorfeydd yn cael ei gynnal yn ystod mis Medi a Hydref yn hytrach na mis Ionawr a Chwefror, lle'r oedd y tywydd yn fwy ffafriol.

Diolchwyd i'r Bad Achub am eu cymorth y penwythnos diwethaf pan roedd cwch wedi troi wyneb i'w waered yn yr harbwr.

Adroddwyd bod y gwasanaeth yn edrych i sefydlu safle storio a gwaredu tân gwyllt tu ôl i Swyddfa'r Harbwr oherwydd llwyddiant y cynllun o dderbyn a gwaredu tân gwyllt gan unigolion. Nodwyd bod buddsoddiad o tua £3,000 yn y cynllun yn sicrhau diogelwch defnyddwyr.

ch) Ystadegau

Adroddwyd o ganlyniad i ohebu efo unigolion bod y gwasanaeth wedi derbyn 103 o geisiadau am angorfeydd hyd yn hyn. Nodwyd bod y niferoedd yn siomedig felly byddai'r gwasanaeth yn cysylltu unwaith eto efo unigolion yn yr wythnosau nesaf. Nodwyd oherwydd sefyllfa'r economi bod y sefyllfa'r un fath yn y harbyrau eraill.

Mewn ymateb i sylw parthed cynllun busnes ar gyfer yr harbwr, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod cynlluniau yn ei le ar gyfer yr harbwr, megis y cynllun gyda'r Clwb Hwyllo o leoli mwy o bontŵns a'r caniatâd a oedd wedi ei dderbyn i leoli angorfeydd ar hyd wal yr harbwr.

Nodwyd bod y sefyllfa ddyrys ariannol yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ddarganfod ffyrdd gwahanol o weithredu gyda llai o adnoddau.

Nododd aelod y gallai aelodau feddwl am syniadau o sut i wella'r harbwr. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y gwasanaeth yn croesawu syniadau'r aelodau ac y byddent yn cael eu hystyried.

d) Cyllidebau

Adroddwyd bod yr incwm a dderbyniwyd yn weddol ffafriol ac y rhagwelir y byddai'r gyllideb yn £12,000 yn well na'r gofynion.

dd) Ffioedd 2014/15

Adroddwyd bod ffioedd 2014/15 o gymharu â ffioedd 2013/14 wedi eu cynyddu yn unol â chwyddiant ac y rhagwelir cynnydd o 2% yn y targed incwm. Nodwyd nad oedd newid yn y ffioedd cofrestru na lansio.

e) Gwelliannau

Ymhelaethwyd ar y gwelliannau gan gynnwys buddsoddiad yn nhoiledau Morfa Bychan.

Adroddwyd bod traeth Morfa Bychan wedi sicrhau gwobr traeth y Faner Las ac yn y dyfodol y byddai'r Cyngor yn ceisio cael cyfraniad tuag at gost gwneud cais am y wobwr gan eraill e.e. Cyngor Tref Porthmadog.

f) Ansawdd dŵr

Adroddwyd bod ansawdd dŵr ymdrochi Morfa Bychan wedi derbyn safon 'Ardderchog'. Nodwyd bod ansawdd y dŵr yn bwysig er mwyn gwarchod defnyddwyr a staff.

ff) Staff Harbwr

Adroddwyd bod cyfweiliadau swyddi Cymhorthyddion Tymhorol yn cael eu cynnal dydd Gwener ac y byddai'r penodiadau am gyfnod o'r 7fed o Ebrill tan y 30ain o Fedi.

Nodwyd bod y Swyddog Morwrol Cynorthwyol Harbyrau yn ymddeol diwedd y mis. Nodwyd y bu oediad yn hysbysebu'r swydd oherwydd efallai y byddai angen yr arian i bontio'r diffyg, gyda'r staff presennol yn ysgwyddo'r baich.

g) Cynllun Sianel Harbwr Porthmadog

Nododd aelod y dylid nodi 'Cwt Powdwr' yn hytrach na 'White House' ar y cynllun gan ei fod yn enw cydnabyddedig a hanesyddol ar gyfer yr ardal yma. Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'r cynllun yn cael ei ddiwygio i'r perwyl yma.

5. Cyfarfod Nesaf

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 8 Hydref, 2014.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.40pm